# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 5ed 2023 yn Neuadd Mynach Yn bresennol oedd Eifion Davies (cadeirydd), Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Rita Jones, Meilir Jones, Alwyn Jones. Gary Thomas, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Iolo V. Evans a Dewi Pritchard.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Meilir Jones yn datgan ei fuddiant gyda chais cynllunio isod.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Ffordd Rhiwlas yn parhau ar gau oherwydd tirlithriad – roedd y clerc wedi ail gysylltu â Chyngor Gwynedd a chafwyd cadarnhad eu bod yn ceisio trefnu i gael yr offer arbenigol i'r safle cyn gynted â phosib.
ii) Gwrychoedd ar hyd y ffordd o Gefnddwysarn i Gwm Main angen eu tocio – roedd y gwaith wedi cael ei gwblhau.
iii) Tyllau yn y ffordd ger Blaen Cwm, Bethel a hefyd ger Llawrbetws Uchaf, Glanrafon – roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i lenwi'r tyllau.
iv) Cwynion am lwybrau cyhoeddus – roedd giat wedi cael ei osod ar lwybr Ffridd Blaencwm ac roedd trefniadau mewn lle i dorri'r gordyfiant ar lwybr Erw Deg.
v) Cyflwr yr A494 rhwng Cefnddwysarn a Sarnau – cafwyd cadarnhad fod y gwaith ail wynebu wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Medi a Hydref.
vi) Ffordd ger Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch – roedd y ffordd wedi cael ei ailwynebu'n ddiweddar.
vii) Cyflwr yr Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad fod y mater am gael ei anfon ymlaen i Uned Gorfodaeth Cyngor Gwynedd.
viii) Goryrru ym mhentref Llandderfel – cafwyd canlyniadau'r arolwg traffic ac yn dilyn trafodaeth gyda'r heddlu roedd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau nad oedd tystiolaeth o or-yrru dwys yn yr ardal. Gan fod y cyfyngiad cyflymder y pentref am ostwng i 20mya ym mis Medi roedd bwriad ganddynt i fonitro'r cydymffurfiad i'r gwaharddiad newydd ac ail edrych ar y sefyllfa bryd hyny.

b) Mynwentydd
i) Cais grant i Gronfa Cymunedau Eryri - roedd y Cyngor wedi derbyn arian o'r gronfa ar gyfer creu'r llwybr troed ym mynwent Frongoch. Roedd y contractwr yn gobeithio cychwyn y gwaith ym mis Medi.
ii) Mynwent Llanfor – darllenwyd yr adroddiad a oedd wedi cael ei baratoi gan yr arbenigwr coed a chytunwyd i symud ymlaen i wneud cais i Gronfa Melinau Gwynt Clocaenog am arian i wneud y gwaith fel y cynghorwyd. Trafodwyd hefyd y gwelliannau eraill i'w gynnwys yn y cais, y gwaith ym mynwent Frongoch a drafodwyd yn flaenorol, hysbysffyrddau, clirio a thacluso mynwent Llanfor ayyb.

c) Damweiniau ar yr A494.
Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi cysylltu â Mabon ap Gwynfor ac roedd yntau wedi gohebu a Llywodraeth Cymru a'r wasg ac wedi creu deiseb i gael cefnogaeth y cyhoedd i'r achos.

**iv) Gohebiaeth.**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd, mis Awst a Medi.
ii) Holiadur Cymunedau – ffiniau cymunedau'r sir a'r trefniadau etholiadol.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

b) Fferm Wynt Gaerwen.
i) Cyflwynwyd y diweddariad a dderbyniwyd gan RWE. Atgoffwyd y cynghorwyr am y cyfarfod y noson ganlynol gyda chynrychiolwyr RWE.

c) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Diweddariad.

ch) Un Llais Cymru.
i) Canllaw Gweithredu Hinsawdd a Natur ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru**.** Cytunwyd i'w ddefnyddio wrth adolygu ein hadroddiad Bioamrywiaeth.

d) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Diweddariad ar feysydd parcio Llyn Tegid a Llangywer.

dd) Mabon ap Gwynfor, MS.
i) Cyfarfod arlein i drafod darpariaeth ddeintyddol yn ein hardal. Gofynnwyd i'r clerc fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Cyngor Gwynedd – Rhybudd cyfarwyddyd erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
b) Ceisiadau:-
i) Ymgynghoriad cais cyn cynllunio ar gyfer gosod gorsaf radio ffôn symudol ger Llyn Celyn.
ii) C23/0525/04/LL – codi storfa biswail. Bryn Derw, Glanrafon (Meilir Jones yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).
iii) A147 Deddf Priffyrdd 1980 Pŵer i awdurdodi codi giatiau, camfeydd ar lwybr cyhoeddus, Llwybr Cyhoeddus Rhif 164.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Derbyniadau.
i) Ail-randal y Praesept £4,500.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol).
ii) Designer Signs (arwyddion y fynwent a'r toiledau).
iii) Anderson Tree Specialists (adroddiad coed mynwent Llanfor).
iv) D Emyr (llwybr Newydd mynwent Frongoch, 20% cyntaf pan fydd yn barod i gychwyn y gwaith).

c) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd cais gan Cerebral Palsy Cymru. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gwrych Penllan i fyny am y fynwent, Llandderfel – roedd y clerc wedi anfon llythyr at y perchennog yn gofyn iddynt dorri'r gwrych yn nol.
b) Loriau coed yn defnyddio'r B4501, Frongoch i Gerrigydrudion – roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn iddynt osod arwydd yn Frongoch i rybuddio gyrrwyr nad oedd y ffordd yn addas i loriau mawr. Trafodwyd y mater ymhellach ac roedd y cynghorwyr yn cytuno fod cyflwr y ffordd yn dirywio oherwydd loriau trwm ond gan fod nifer o loriau/tractorau yma yn ymweld â ffermydd lleol roeddynt yn ansicr sut y byddai'r gwaharddiad yn cael ei weithredu.


Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

c) Llythyr gan drigolion Llanfor ynglyn â chael lloches bws gyferbyn a'r un presennol - cytunwyd i ail gysylltu â'r asiantaethau perthnasol.
ch) Arwydd Sarnau angen ei drwsio – roedd y clerc eisoes wedi pasio'r mater ymlaen i'r Asiantaeth Cefnffyrdd ond heb glywed yn nol.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.**



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..